

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 8**

*Cenedlaetholdeb:*  
*Ffrydiau*  
*Amrywiol*  
**Canllaw i Athrawon**

## CANLLAW I ATHRAWON

Mae'r adnodd hwn, **Cenedlaetholdeb: Ffrydiau Amrywiol**, yn un o wyth sy'n rhan o **E-lawlyfr 2: Cyflwyniad i Syniadau Gwleidyddol**. Mae pob un o'r adnoddau sy'n rhan o'r e-lawlyfr hwn wedi'u teilwra'n arbennig i gynorthwyo'r sawl sy'n dysgu neu'n astudio Uned 3 o fanyleb CBAC ym maes Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.'

Bwriad yr adnodd hwn yw rhoi sylw i faterion sy'n berthnasol i adran 3.4.1 o'r fanyleb, sef 'Gwerthoedd a Syniadau Sylfaenol Cenedlaetholdeb'. Gwneir hynny trwy gynnig cyflwyriad i rai o'r ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb a gaiff eu rhestru yn yr adran hon o'r fanyleb: cenedlaetholdeb ethnig a dinesig a hefyd cenedlaetholdeb rhyddfrydol a cheidwadol. Dylid nodi bod cysylltiad agos rhwng yr adnodd hwn ac Adnodd 7, Cenedlaetholdeb: Nodweddion Allweddol, sy'n trafod rhai o'r elfennau cenedlaetholgar sydd hefyd yn cael eu rhestru yn adran 3.1.1 o'r fanyleb.

Bwriad y canllaw byr yma yw cynnig amlinelliad o gynnwys yr adnodd a hefyd gorolwg o'r math o ymarferion a geir yn y llawlyfr gwaith.

### Cynnwys y Llawlyfr Gwybodaeth

Agora'r llawlyfr trwy egluro bod y llenyddiaeth academaidd sy'n trafod cenedlaetholdeb yn cynnwys nifer helaeth o ymdrechion i sefydlu teipolegau sy'n gwahaniaethu rhwng mathau amrywiol o genedlaetholdeb. Eglurir hefyd fod dwy o'r teipolegau hyn wedi profi'n arbennig o ddylanwadol dros y blynyddoedd.

- : Mae'r gyntaf ohonynt yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o genedlaetholdeb trwy ystyried y modd y mae mudiadau cenedlaethol yn dewis diffinio pwy sy'n medru hawlio aelodaeth o'r genedl – hon yw'r deipoleg sy'n gwahaniaethu rhwng **enedlaetholdeb ethnig a chenedlaetholdeb dinesig**.
- : Mae'r ail yn gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o genedlaetholdeb trwy ganolbwyntio ar y modd y maent wedi datblygu trwy gael eu hasio â syniadau pwysig o draddodiadau ideolegol eraill – hon yw'r deipoleg sy'n gwahaniaethu rhwng **enedlaetholdeb rhyddfrydol a chenedlaetholdeb ceidwadol**.

Yn dilyn hyn, eir ati i drafod y deipoleg gyntaf – cenedlaetholdeb ethnig a dinesig – gan egluro mai'r hyn sy'n sail i'r gwahaniaeth rhwng y ddwy ffurf yma ar genedlaetholdeb yw'r modd y caiff y genedl ei diffinio, ac yn sgil hynny, sut yr eir ati i ddynodi pwy sy'n medru cael eu cydnabod fel aelodau ohoni. Eglurir hefyd fod cenedlaetholdeb dinesig wedi tueddu i gael ei drin fel traddodiad mwy blaengar a chynhwysol na chenedlaetholdeb ethnig, gan y tybiwyd nad yw'n rhoi cymaint o bwyslais ar nodweddion megis hil, tras neu iaith. Fodd bynnag, wrth gloi'r drafodaeth dadleuir bod peryg rhoi gormod o bwyslais ar y rhaniad ethnig-dinesig wrth drafod cenedlaetholdeb, gan fod dadleuon a gweithredoedd dydd-i-ddydd cenedlaetholwyr yn aml yn medru bod yn gyfuniad cymhleth o'r ethnig a'r dinesig.

Yn ystod adrannau olaf y llawlyfr eir ati i gyflwyno prif nodweddion cenedlaetholdeb rhyddfrydol a chenedlaetholdeb ceidwadol. Eglurir bod cysylltiad y cyntaf â syniadau rhyddfrydol wedi arwain at ffurf ar genedlaetholdeb sy'n pwysleisio egwyddorion megis cydraddoldeb pob cenedl a hefyd yr angen am drefniadau llywodraethol sy'n seiliedig ar gydsyniad y genedl. Yna yn achos yr ail eglurir bod y cysylltiad â syniadau ceidwadol wedi arwain at ffurf ar genedlaetholdeb sy'n pwysleisio ffactorau megis trefn, undod a dyletswydd.

## Ymarferion yn y Llawlyfr Gwaith

Amcan y gweithgareddau yn y llawlyfr gwaith yw rhoi cyfle i'r disgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth o brif nodweddion y ffurfiau gwahanol ar genedlaetholdeb a drafodwyd yn y llawlyfr gwybodaeth a hefyd i gymharu, cyferbynnu a chloriannu'r nodweddion hyn. Mae'r gweithgareddau'n galw am restru pwyntiau perthnasol mewn tablau a hefyd yn galw am lunio atebion ysgrifenedig sy'n amrywio o ran eu hyd.

### DA RLLEN PELLACH

Richard Wyn Jones *Rhoi Cymru'n Gyntaf: Syniadaeth Plaid Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), gweler pennod 1, yn enwedig tud 4-40.

Andrew Vincent, *Modern Political Ideologies* (Rhydychen, Wiley-Blackwell, 2010), pennod ar Genedlaetholdeb, tud 226-60.